# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Mai 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5656

# 207

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-2 a 4-9 . Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

Atebodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y 6 chwestiwn yn y 15 munud olaf o'r sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.51

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia

Dechreuodd yr eitem am 15.16

## 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol: Llwybr Arfordir Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.50

## 5 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Teithio Llesol

Dechreuodd yr eitem am 16.28

## 6 Dadl: Adroddiad Blynyddol 2018-19 Prif Swyddog Meddygol Cymru - Gwerthfawrogi ein Hiechyd

Dechreuodd yr eitem am 17.10

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7048** - Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru ar gyfer 2018-19 'Gwerthfawrogi ein Hiechyd' a gyhoeddwyd ar 7 Mai 2019 ac yn croesawu yn arbennig:

a) sylwadau'r Prif Swyddog Meddygol ynghylch llwyddiannau, cyfleoedd a heriau sy'n ein hwynebu wrth geisio gwella iechyd pobl Cymru;

b) ei sylw ar bwysigrwydd sicrhau'r gwerth gorau posib am arian o'r adnoddau sydd ar gael mewn gofal iechyd;

c) pwysigrwydd ymchwil i wella iechyd ac economi Cymru; a

d) ei asesiad o'r prif fygythiadau i iechyd sydd yn ein hwynebu.

Adroddiad blynyddol y Prif Swyddog Meddygol: 2018 i 2019

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y methiant parhaus i gyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â llygredd aer fel ffordd o wella iechyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 27 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7048** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru ar gyfer 2018-19 'Gwerthfawrogi ein Hiechyd' a gyhoeddwyd ar 7 Mai 2019 ac yn croesawu yn arbennig:

a) sylwadau'r Prif Swyddog Meddygol ynghylch llwyddiannau, cyfleoedd a heriau sy'n ein hwynebu wrth geisio gwella iechyd pobl Cymru;

b) ei sylw ar bwysigrwydd sicrhau'r gwerth gorau posib am arian o'r adnoddau sydd ar gael mewn gofal iechyd;

c) pwysigrwydd ymchwil i wella iechyd ac economi Cymru; a

d) ei asesiad o'r prif fygythiadau i iechyd sydd yn ein hwynebu.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 0 | 43 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 7 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.50

Daeth y cyfarfod i ben am 17.51

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 15 Mai 2019**